Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher : Mrs H Davies**

25/11/22

Annwyl riant / gwarchodwr,

Neges atgoffa am yr wythnos nesaf.

**DYDD LLUN**
Bydd pawb yn ymarfer yn y neuadd ar fore dydd Llun o'r Meithrin Llawn amser i Flwyddyn 6. Gofynnwn i chi ddod a'ch plentyn i'r Neuadd Goffa erbyn 8:50yb.

Bydd POD 1 & 2 (Meithrin Llawn, Derbyn, Blwyddyn 1, 2 a 3) yn cerdded nol i'r ysgol erbyn amser cinio. Sicrhewch bod cot addas gyda'ch plentyn os gwelwch yn dda. Bydd angen pecyn bwyd ar POD 3.

Bydd angen casglu POD 3 o'r Neuadd Goffa am 3 o'r gloch. POD 1 & 2 o'r ysgol am 3:20yp.

**DYDD MAWRTH**
Bydd ymarfer i bawb yn y Neuadd Goffa 8:50yb – 3:00yp. Bydd angen pecyn bwyd os nad ydych wedi archebu pecyn bwyd ysgol. Bydd hefyd angen gwisgo eich gwisg ar gyfer ein ymarfer llawn.

**DYDD MERCHER**
Pawb yn dod i'r ysgol fel arfer. Bydd angen pecyn bwyd os nad ydych wedi archebu pecyn bwyd ysgol. Bydd angen i bawb (heblaw y prif gymeriadau) gwisgo'i gwisg i'r ysgol.

Pawb yn mynd i'r Neuadd Goffa ar ôl cinio cynnar. Bydd Meithrin a Derbyn yn cael eu cludo i'r Neuadd ar fws. Bydd pawb arall yn cerdded. Gofynnwn i chi beidio yrru unrhyw beth arall i'r ysgol ar y diwrnodau Sioe – dim llyfr darllen, dim peli neu bydden nhw'n cael ei gadael yn yr ysgol.

Bydd y sioe yn gorffen am 2:15yp ac os nad ydych yn dod i'r sioe gofynnwn i chi gasglu eich plentyn o'r Neuadd Goffa erbyn 2:30yp. Os oes newid i'r person sydd yn casglu eich plentyn gofynnwn i chi rhoi gwybod i'r staff.

**DYDD IAU**
Fel Dydd Mercher
Bydd sioe am 1yp a 6yh. Gofynnwn i chi ddod a'ch plentyn yn ôl i'r Neuadd Goffa erbyn 5:30yh.

**DYDD GWENER**
Nol i drefn ysgol arferol i bawb 😊

Diolch am aeich cefnogaeth a chydweithrediad,

*H Davies*
Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher